



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cymorth tuag at astudiaethau doethurol

Awst 2018

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Cymorth tuag at astudiaethau doethurol

Cynulleidfa	Sefydliadau addysg uwch, darparwyr addysg uwch eraill ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad.
Trosolwg	Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gymorth tuag at astudiaethau doethurol.
Camau gofynnol	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Gwybodaeth bellach	<p>Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:</p> <p>Yr Is-adran Addysg Uwch Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: HEDConsultationsMailbox@llyw.cymru</p>
Copïau ychwanegol	Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau
Dogfennau cysylltiedig	<p><i>Cymorth tuag at astudiaethau doethurol – ymgynghoriad</i></p> <p>https://beta.llyw.cymru/cymorth-tuag-astudiaethau-doethurol</p>

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Crynodeb	5
Ymatebion	6
Cwestiynau a themâu	7
Ymateb Llywodraeth Cymru	13
Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr	14

Cyflwyniad

1. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad¹ ar y cynnig i gynorthwyo myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru a myfyrwyr yr UE sy'n astudio yng Nghymru sy'n ymgymryd â chysiau dynodedig sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster doethuriaeth. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru.

¹ <https://beta.llyw.cymru/cymorth-tuag-astudiaethau-doethurol>, Llywodraeth Cymru, 2018, WG33258


Crynodeb

2. Roedd Gweinidogion Cymru'n ystyried cyflwyno cymorth benthygiad i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio am ddoethuriaeth ac yn gofyn am farn ar becyn arfaethedig.
3. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 8 Rhagfyr 2017 a 2 Mawrth 2018. Derbyniwyd wyth ar hugain o ymatebion. Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i'r rhai a roddodd o'u hamser i gyflwyno'u barn. Derbyniwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno'r pecyn fel y'i disgrifiwyd.
4. Bu Llywodraeth Cymru'n pwysu a mesur yr ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfynodd gyflwyno'r pecyn fel y cynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Ymatebion

5. Cafwyd wyth ar hugain o ymatebion i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd y nifer fwyaf gan groestoriad o'r cyhoedd, gan gynnwys tiwtoriaid, myfyrwyr presennol a rhai sy'n ymrestru, a rhai â diddordeb mewn astudio ôl-raddedig. Derbyniwyd ymatebion hefyd gan sefydliadau addysg uwch ('SAUau'), undebau llafur, corff rheoleiddio a gwahanol gyrff cynrychiadol, yn bennaf yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Mae'r crynodeb yn dangos y dadansoddiad isod ac mae rhestr lawn o'r ymatebwyr yn atodiad A.

Ffigur 1: Ymatebion i'r ymgynghoriad gan wahanol fathau o ymatebwyr



Cwestiynau a themâu

6. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i weld beth oedd y farn ar y cynigion i ddarparu cymorth i fyfyrwyr ar gyfer graddau doethurol ôl-raddedig:

Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno y dylid darparu cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol?

Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno â'r pecyn cymorth arfaethedig fel yr amlinellir? Oes unrhyw agwedd y byddech chi'n ei newid? Pam?

7. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn croesawu'r cynigion ac yn gadarnhaol ynghylch y polisi cyffredinol. Daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg yn yr ymatebion, a grynhoir isod.

Rhwystrau ariannol

8. Cytunodd pob un ond un ymatebydd y dylid darparu cymorth ar gyfer astudio doethuriaeth. Mae'r ymatebydd a wrthwynebodd yn awgrymu bod digon o gyllid eisoes ar gael o ffynonellau eraill ac y dylid ailgyfeirio unrhyw gyllid ychwanegol drwy'r mecanweithiau cyllido presennol fel grant, yn hytrach na benthyciad.
9. Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod, er bod ffynonellau eraill o gyllid ar gael, ei fod yn gyfyngedig i gyrsiau astudio penodol ac roedd cystadleuaeth sylweddol i gael y cyllid cyfyngedig sydd ar gael.
10. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y byddai darparu cyllid ychwanegol trwy fenthyciadau yn dymchwel rhwystrau cymdeithasol ac ariannol, yn ehangu mynediad a'r dewis o bynciau i unigolion talentog, a all fod yn methu â chael cyllid drwy'r llwybrau presennol gan gynnwys cyflogwyr. Cafwyd sylwadau bod myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru'n haeddu'r un cyfleoedd â'r rhai sy'n preswyllo fel arfer yn Lloegr.

Cynyddu nifer yr ymchwilwyr

11. Gwnaeth Prifysgolion Cymru sylwadau ar y budd y byddai'r cymorth yn ei gynnig. Tynnodd sylw at y ffaith bod tystiolaeth yn dangos y cysylltiad cryf rhwng ymchwil a datblygu a thwf economaidd cenedlaethol. Awgrymodd fod astudiaethau blaenorol wedi dangos nad oedd mäs critigol digonol o ymchwilwyr yng Nghymru, er bod SAUau yn gyfrifol am oddeutu hanner cyfanswm buddsoddiad Cymru mewn ymchwil a datblygu. Argymhellodd y dylai Cymru fanteisio ar ei chyfle i sicrhau nad oedd darpar fyfyrwyr doethurol o Gymru dan anfantais o gymharu â myfyrwyr yn Lloegr a manau eraill yn y DU.
12. Roedd Prifysgol Caerdydd yn cytuno'n gryf gyda darparu cymorth ac yn dweud ei bod yn galonogol y byddai myfyrwyr yng Nghymru yn elwa o'r un

cyfleoedd â myfyrwyr yn Lloegr. Ychwanegodd fod cynllun benthyciad yn debygol o wneud gwahaniaeth sylweddol i benderfyniadau i ddilyn astudiaeth a chefnogi cyflawni canlyniadau llwyddiannus ac amserol.

13. Roedd y Brifysgol Agored yn croesawu'r cynigion a amlinellir yn y papur ymgynghori ac yn arbennig y byddai cymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer y rhai sy'n dewis astudio'n rhan-amser, gan gynnwys trwy ddysgu o bell, i sicrhau bod cyfle i gynifer o bobl â phosib.

Y pecyn ariannu

14. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno gyda'r pecyn cyllido cyffredinol, er bod llawer yn awgrymu nad oedd y swm yn ddigonol i dalu am gostau llawn ffioedd, costau byw a gofal plant, o'i gymharu â'r arian a ddarperir ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ar gyfer astudiaeth israddedig a Meistr ôl-raddedig. Er bod llawer yn croesawu mynediad at gyllid y tu allan i'r llwybr cystadleuol presennol, roedd pryderon hefyd ynghylch lefel dyledion, ad-dalu a chyfraddau cadw.
15. Dywedodd un SAU eu bod wedi cael profiad o fyfyrwyr ôl-raddedig yn cymryd y benthyciad uchaf yr oedd ganddynt hawl i'w gael, ond wedyn wedi mynd i ddyled gyda thaliadau ffioedd dysgu gan eu bod yn teimlo eu bod yn gorfod blaenoriaethu costau byw dros ffioedd dysgu.

Cyfraddau ad-dalu a lefelau dyled

16. Dywedodd un ymatebydd bod y gyfradd llog ar fenthyciadau'n ddrutach na'r benthyciadau sydd ar gael o fanciau'r stryd fawr. Roedd eraill yn pryderu am ddyledion lluosog a ddeuai gydag astudiaethau a benthyciadau ychwanegol.
17. Awgrymodd un SAU y byddai cynlluniau bwrsariaeth yn well na benthyciadau. Er hynny, roedd yn cydnabod y byddai strwythur ariannu gan y llywodraeth y gellid ei reoli'n ariannol ar lefel llywodraeth yn ddymunol.

Cwestiwn 3. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r benthyciad arfaethedig yn gwneud unrhyw wahaniaeth o ran y nodweddion a warchodir gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac eithrio oedran, wrth bennu cymhwysedd. Y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol. Ydych chi'n meddwl bod yna faterion eraill y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ymwybodol ohonynt a fyddai'n effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar y benthyciad arfaethedig sydd ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i liniaru unrhyw effaith negyddol?

Cyfyngiad oedran

18. Esgorodd y cyfyngiad oedran ar rywfaint o drafodaeth. Er bod y sector AU a llawer o unigolion yn deall y sail resymegol y tu ôl i'r polisi a amlinellir yn yr ymgynghoriad, ystyriwyd ei fod yn rhwystr i ddysgu a dilyniant i rai.

Cydbwysedd rhwng y rhywiau

19. Awgrymodd un ymatebydd nad oedd gan fenywod gynrychiolaeth ddigonol yn y byd academiaidd waeth beth oedd eu gallu, oherwydd rhwystrau ariannol a logistaidd a wynebir yn sgil ymrwymadau gofal plant a theuluol. Er eu bod yn croesawu'r ddarpariaeth o fenthyciad, roeddent o'r farn y dylai grantiau gofal plant fod ar gael i'r rhai sy'n astudio graddau doethurol ôl-raddedig.

Cwestiwn 4. Ydych chi'n meddwl y byddai'r polisi hwn, o'i weithredu, yn cael effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n anffafriol) ar:

- y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Effaith gadarnhaol ar y Gymraeg

20. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r polisi arfaethedig, pe bai'n cael ei weithredu, yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. Nododd ymatebwyr fod y mwyafrif helaeth o ddoethuriaethau'n cael eu cynnig trwy gyfrwng y Saesneg yn unig a phrin oedd y cyfle i siaradwyr Cymraeg ddilyn cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i Gymru.

21. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, yn enwedig y SAUau. Cafwyd awgrym ganddynt y gellid gweld cynnydd yn nifer y cyrsiau Cymraeg sydd ar gael a fyddai'n cynnig mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr gynnal eu hymchwil ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac y byddai'n annog siaradwyr Cymraeg i aros yng Nghymru.

Cwestiwn 5. Sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu mwy o effeithiau cadarnhaol, ar:

- y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Mwy o arian i annog astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

22. Dywedodd Prifysgol Aberystwyth na fyddai'r ddarpariaeth ar ei phen ei hun yn cyfrannu at gynnydd yn nifer y rhai cymwys iawn sy'n defnyddio'r Gymraeg ym maes addysgu addysg uwch, y llywodraeth neu ddiwydiant, yn unol â Strategaeth y Gymraeg. Argymhellodd fod Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r cyfle i ystyried cyllid grant mwy cystadleuol i fyfyrwyr doethuriaeth i'w hannog i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Awgrymodd un ymatebwr y dylai lwfans grant ychwanegol ar gyfer siaradwyr Cymraeg fod ar gael i annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio.

Cwestiwn 6. Sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael llai o effeithiau andwyol ar:

- y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ystyried y dewis o gyrsiau

23. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y gallai cyfyngu ariannu i feysydd pwnc megis gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, economeg, addysg, meddygaeth a mathemateg gael effaith andwyol ar y Gymraeg. Gallai hyn gyfyngu ar gyfleoedd i'r rhai sy'n dymuno astudio pynciau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac atal cyfleoedd i bobl astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
24. Awgrymodd Prifysgol Abertawe y gallai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o ddyrannu benthyciadau ar gyfer cwblhau doethuriaethau ar y Gymraeg, llenyddiaeth a hanes. Fodd bynnag, yr ymateb bron yn ddiethriad gan ymatebwyr oedd na ddylid cyfyngu i bynciau penodol.

Cwestiwn 7. Nodwyd rhai effeithiau negyddol posibl ym mharagraffau 62 a 63 (gostyngiad mewn ansawdd/safon a/neu gynnydd mewn astudiaethau o ddisgyblaethau lle allai fod llai o fudd economaidd). Beth yw eich barn am ba mor debygol yw hyn o ddigwydd, a pha mor sylweddol fydd yr effaith?

Dewis ehangach

25. Yn gyffredinol, nid oedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai yna ostyngiad posibl mewn ansawdd na safonau. Amlygodd ymatebwyr natur gystadleuol bresennol cyllid ymchwil a natur anodd yr astudiaeth, a allai effeithio ar y budd economaidd yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn

gwerthfawrogi'r dewis ehangach o bynciau, gan dderbyn y byddai llai o fudd economaidd mewn rhai achosion.

26. Awgrymodd llawer o ymatebwyr, er y gellid gweld bod gan y pynciau traddodiadol nodweddiadol megis gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg elw economaidd uwch, roeddent o'r farn bod pynciau megis cyrsiau diwylliannol a'r celfyddydau'n werthfawr hefyd ac yn cyfrannu at fudd economaidd cadarnhaol.
27. Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai safonau ostwng, oherwydd gofyniad mynediad is ar gyfer cwrs heb ei sicrhau drwy'r llwybr cystadleuol.

Gwerth i gyflogwyr

28. Roedd CCAUC o'r farn bod gostyngiad mewn safonau'n annhebygol ac ni chredai fod risg arwyddocaol mewn perthynas â'r amrywiadau mewn budd economaidd oedd yn deillio o ddisgyblaethau pwnc gwahanol. Tynnodd sylw at astudiaeth ar effaith gyrfaoedd doethurol, a gomisiynwyd gan Gyngorau Ymchwil y DU, HEFCE a CCAUC yn 2013, a welodd fod graddedigion doethurol o bob disgyblaeth bwnc yn ddeniadol i gyflogwyr. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gan raddedigion doethurol gasgliad o sgiliau gwerthfawr yn ogystal â'u gwybodaeth arbenigol am eu pwnc, sy'n gwella eu cyflogadwyedd, gan gynnwys sgiliau ymchwil a dadansoddi, sgiliau datrys problemau a'r gallu i arloesi.

Cwestiwn 8. Yn eich barn chi, a ddylid cyfyngu mynediad at gyllid ar gyfer astudiaethau doethurol i fathau penodol o ddyfarniad a/neu bwnc? Er enghraifft, eu cyfyngu i achosion lle mae modd dangos bod budd uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r cyhoedd? Gallai hyn gynnwys:

- a) Cyfyngu cyllid ar gyfer astudiaethau doethurol i sefyllfaoedd lle roedd y goruchwyliwr wedi cyflwyno mewn grŵp ymchwil a enillodd dros y trothwy yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.
- b) Gallai hefyd gynnwys cyfyngu cyllid i feysydd pwnc lle mae tystiolaeth bod angen mwy o unigolion sy'n meddu ar gymhwyster yn y maes yng Nghymru yn ôl CCAUC neu ei gorff olynol sy'n gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Gallai'r ymagwedd hon arwain at annog doethuriaethau mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, economeg, addysg, meddygaeth, a mathemateg.

29. Nid oedd unrhyw dystiolaeth gan ymatebwyr i awgrymu bod cyfyngu ar gwmpas y benthyciad ar gyfer pynciau penodol yn syniad cadarnhaol.

Sicrwydd ynghylch safonau

30. Roedd CCAUC yn glir na ddylid cyfyngu cyllid i oruchwyliwyr mewn grŵp ymchwil a gyflawnodd sgôr uwchlaw sgôr trothwy yn yr REF. Awgrymodd fod

gan sefydliadau drefniant dilysu eisoes neu Bŵer Dyfarnu Graddau Ymchwil (RDAP), gan ddarparu sicrwydd digonol o safonau at ddibenion y cynllun benthyciad doethuriaeth.

31. Roedd Prifysgolion Cymru'n deall yr anawsterau wrth weithredu dull gwahanol o gymorth benthyciadau doethuriaeth yng Nghymru a'r effaith, ac na fyddai'n cefnogi'r dull o gyfyngu ar gyllid ar sail REF, na ddylai gael ei weld fel rhywbeth i gymryd lle ansawdd addysgu/goruchwylio. Awgrymodd y byddai'n hoffi gweld datblygiadau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i weithredu argymhellion cytunedig o Adolygiad Diamond mewn perthynas â bwrsariaethau ac i ystyried rhinweddau dulliau amgen gan gynnwys dulliau deholus sy'n targedu meysydd blaenoriaeth posib, gan gynnwys pynciau STEM/drud.

Safonau gwahaniaethol

32. Tynnodd CCAUC sylw at y ffaith y gallai eithrio rhai adrannau yng Nghymru o'r cynllun beri anfantais i rai myfyrwyr sydd am ymgymryd ag astudio doethurol mewn pwnc penodol ond nad ydynt yn gallu symud yn ddaearyddol. Byddai cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru ymgymryd ag astudiaeth ddoethurol yn fwy cyfyngedig pe baent yn dewis astudio yng Nghymru yn hytrach na phe baent yn dewis astudio yn rhywle arall yn y DU, ac felly byddai safonau gwahaniaethol yn berthnasol.

Lleihau arloesedd

33. Awgrymodd Undeb Prifysgolion a Cholegau (Cymru), er y gallai annog cyfranogiad mewn meysydd lle'r oedd tystiolaeth o fwy o angen, gallai cyfyngu ar arian i fathau penodol o ddyfarniad a/neu bynciau olygu y byddai perygl o leihau arloesedd yng Nghymru.

Cwestiwn 9. Oes yna unrhyw faterion eraill ynghylch ein cynnig yr hoffech eu codi?

Mwy o eglurder

34. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn fodlon gyda'r lefel o fanylion a ddarparwyd yn y broses ymgynghori ond roeddent yn croesawu eglurder pellach ynghylch manylion llawn y cynllun.
35. Ni chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol eraill nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y crynodeb hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

36. Ystyriodd a dadansoddodd Llywodraeth Cymru sylwadau a safbwyntiau'r holl ymatebwyr. O ganlyniad ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisi a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad.
37. Daeth Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 i rym ar 25 Mehefin 2018. Maent yn darparu'r sail ar gyfer y system cymorth benthyciad i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru a myfyrwyr yr UE yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau gradd doethuriaeth dynodedig yn y blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Atodiad A

Rhestr o'r Ymatebwyr

Prifysgol Aberystwyth
Anhysbys (11 ymateb)
Brierley-Sollis, Tegan
Prifysgol Caerdydd
Grŵp Cyfryngau Cymunedol Crocels
Davies, Jordan
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
Hrastelj, James
McPhee, Ursula
Y Brifysgol Agored
Popp, Margaret Hannigan
Ridley, Harrison
Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Prifysgol Abertawe
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Prifysgolion Cymru
Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru
Prifysgol De Cymru